**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**
**COMMUNITY COUNCIL**

# POLISI HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Adolygwyd a Mabwysiadwyd/
Reviewed and Adopted:

14.04.2025

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**POLISI HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD**

## Cyflwyniad

Mae’r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (Tachwedd 2022) yn nodi bod dyletswydd ar Gynghorau Cymuned a Thref o dan Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i “ystyried hyfforddiant i gynghorwyr a staff cynghorau cymuned o 5 Mai 2022, cyhoeddi eu Cynlluniau Hyfforddi'r Cyngor cyntaf erbyn 5ed Tachwedd 2022, a chreu Cynllun Hyfforddi newydd o fewn tri mis i bob etholiad llywodraeth leol cyffredin dilynol fan bellaf. Nid sicrhau bod pob un cynghorydd o reidrwydd yn cael hyfforddiant ar yr un pynciau yw'r bwriad, ond ceisio creu sefyllfa lle y bydd y cynghorwyr fel grŵp, a'r staff at ei gilydd, yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Bydd cwblhau'r pecyn cymorth hwn yn helpu'r Cyngor i ystyried pa hyfforddiant y dylid rhoi blaenoriaeth iddo er mwyn sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol effeithiol ar waith.”

## Datganiad Polisi

Mae gan Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth ymroddiad i sicrhau  bod ei holl Gynghorwyr a Staff yn derbyn hyfforddiant digonol a phwrpasol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei lawn botensial wrth wasanaethu ei etholaeth yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei hybu er mwyn sicrhau ymarfer da yng ngweithgareddau’r Cyngor.

## Manylion y Polisi

- Bydd y Cyngor yn cytuno cyllideb hyfforddiant digonol yn flynyddol i’w galluogi i gyflawni ei amcanion hyfforddiant
- Bydd y Cyngor yn ystyried anghenion hyfforddiant Cynghorwyr a Staff yn flynyddol a chysylltir hyn gydag amcanion y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn diweddaru’r Cynllun Hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn ymateb i unrhyw anghenion hyfforddiant yn ôl yr angen.
- Bydd y Cyngor yn annog Cynghorwyr a Staff i fynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei glustnodi / gytuno a thelir unrhyw gostau o ganlyniad i’w fynychu.
- Bydd y Cyngor yn annog Cynghorwyr i fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad o leiaf unwaith yn ystod pob tymor etholiadol.
- Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw anghenion hyfforddiant Cynghorwyr neu Staff newydd yn dilyn eu etholiad, cyfetholiad neu penodiad, e.e. cyflwyniad elfennol i gynghorwyr newydd.
- Bydd y Cyngor yn ystyried y Rhaglenni Hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin, ac eraill fe y bo’n briodol.
- Bydd y Cyngor yn cysylltu â neu / ac yn trefnu sesiynau hyfforddiant gyda Chynghorau eraill pan fo’n briodol.
- Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad ar yr holl hyffroddiant a dderbynnir gan Gynghorwyr neu Staff a rhennir y wybodaeth pan fo’n briodol.
- Bydd Cytundebau Cyflogaeth Staff yn cynnwys manylion ymrwymiad y Cyngor i hyfforddiant.
- Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o’r hyfforddiant a dderbynnir gan Gynghorwyr a Staff.
- Bydd gan Gynghorwyr a Staff gyfrifoldeb bersonol i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad broffesiynol yn gadarnhaol er mwyn cefnogi gweithgareddau’r Cyngor.
- Adolygir y Polisi Hyfforddiant a Datblygiad o bryd i’w gilydd i sicrhau effeithiolrwydd parhaus.

## RHAGLEN HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU

| Modiwl | Teitl |
|---|---|
| 1 | Y Cyngor |
| 2 | Y Cynghorydd |
| 3 | Y Cyngor fel Cyflogydd |
| 4 | Dealltwriaeth o’r Gyfraith |
| 5 | Cyfarfod y Cyngor |
| 6 | Cyllid Llywodraeth Leol |
| 7 | Iechyd a Diogelwch |
| 8 | Cyflwyniad i Ymgysylltiad Cymunedol |
| 9 | Cod Ymddygiad |
| 10 | Sgiliau Cadeirio |
| 11 | Cynllunio Cymunedol at Argyfwng |
| 12 | Cynllunio Cymunedol / Lle |
| 13 | Ymgysylltiad Cymunedol Rhan 2 (Dulliau a Thechnegau) |
| 14 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| 15 | Rheoli Gwybodaeth |
| 16 | Defnyddio TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol |
| 17 | Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol |
| 18 | Rheolaeth Effeithiol ar Staff |
| 19 | Datganoli Gwasanaethau / Trosglwyddo Asedau |
| 20 | Cynaliadwyedd / Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol 2016 |
| 21 | Cyllid Llywodraeth Leol - Estynedig |
| 22 | |
| 23 | Datganoli Gwasanaethau |
| 24 | Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu |
| 25 | Hanfodion Bioamrywiaeth – Rhan 1 |
| 26 | Hanfodion Bioamrywiaeth – Rhan 2 |
| 27 | Rheoli Prosiect Cadwraeth Natur |
| | |